Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Llan, Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir Chwitffordd
**Chwitffordd**
**Treffynnon**
**Sir y Fflint**
**CH8 9AN**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**



**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 22/08/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Y Llan ym mhentref bach Chwitffordd yn Sir y Fflint. Mae rhai disgyblion yn byw yn lleol, a'r mwyafrif ohonynt yn mynychu o'r ardal gyfagos. Mae 105 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae niferoedd wedi cynyddu'n sylweddol er Medi 2013. Mae dosbarth meithrin a phedwar dosbarth oedran cymysg.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, nifer gyfartalog y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw tua 5%. Mae hyn ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 20%. Mae gan ryw 16% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 25%. Nid yw unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel mamiaith gartref ac ychydig iawn ohonynt sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd yng ngofal yr awdurdod lleol.

Dechreuodd y pennaeth ar ei swydd ym Medi 2014. Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf o'r ysgol ym mis Mawrth 2013.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir Y Llan, Chwitffordd yn 2016-2017 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,758 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yn Sir y Fflint yw £5,718 a'r isafswm yw £2,944. Mae Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir Y Llan, Chwitffordd yn safle 29 o'r 66 ysgol gynradd yn Sir y Fflint o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da trwy'r ysgol o ran datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)
- Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn yn ystod gwersi ac ar adegau eraill yn ystod y diwrnod ysgol
- Mae addysgu a dysgu cyson dda yn y Cyfnod Sylfaen yn sicrhau bod disgyblion yn cael dechrau da iawn i'w haddysg
- Ceir ystod eang o brofiadau dysgu ysgogol, sy'n bodloni anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddiannus
- Ceir safonau a darpariaeth dda mewn Cymraeg ail iaith
- Ceir ethos cryf a chefnogol ble caiff pawb ei werthfawrogi
- Mae adolygiadau rheolaidd o gynnydd pob un o'r disgyblion yn sicrhau bod athrawon yn nodi a chynorthwyo'n gyflym y disgyblion sy'n tangyflawni
- Mae defnydd effeithiol o staff cymorth cymwys yn gryfder yn yr ysgol
- Mae ansawdd adeilad a thir yr ysgol yn uchel iawn ac mae'n lle ysgogol a chyffrous i ddisgyblion ddysgu a chwarae

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref, bwrpasol ac effeithiol
- Mae gan y pennaeth a'r staff weledigaeth glir, y maent yn ei rhannu'n dda â phob aelod o gymuned yr ysgol, i feithrin lles disgyblion a hyrwyddo amgylchedd dysgu cadarnhaol
- Mae gan yr ysgol ddull trylwyr a systematig o gasglu tystiolaeth hunanarfarnu, ac mae'n nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu yn gywir
- Mae'r corff llywodraethol yn adnabod, yn cefnogi ac yn herio'r ysgol yn effeithiol
- Mae llywodraethwyr yn cymryd rhan weithredol mewn gwneud penderfyniadau ac ym mywyd yr ysgol ac maent yn gweithio'n agos â'r pennaeth i bennu cyfeiriad strategol yr ysgol
- Ceir partneriaethau buddiol iawn â rhieni, y gymuned leol a sefydliadau eraill sy'n cefnogi dysgu a lles disgyblion yn effeithiol

# Argymhellion

A1 Gwella ansawdd sillafu, atalnodi a llawysgrifen disgyblion yng nghyfnod allweddol 2

A2 Codi lefelau presenoldeb

A3 Darparu mwy o her i ddisgyblion mwy abl

A4 Sicrhau bod marcio gwaith disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol at godi safonau

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh o'u mannau cychwyn.

Mae disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu eu medrau siarad a gwrando yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau'n effeithiol i esbonio eu syniadau a chyfathrebu'n glir â ffrindiau ac oedolion. Mae bron pob un o'r disgyblion yn darllen yn hyderus ac mae rhai ohonynt yn dechrau darllen gyda mynegiant. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus i ysgrifennu'n estynedig ac yn addasu eu hysgrifennu at wahanol ddibenion, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyrau at dylwythen deg y dosbarth. Maent yn gwneud defnydd effeithiol iawn o eirfa ddisgrifiadol, er enghraifft pan fyddant yn ysgrifennu am y Creu. Mae bron pob un ohonynt yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu llawysgrifen, eu sillafu a'u defnydd o atalnodi sylfaenol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn siaradwyr hyderus sy'n mynegi eu hunain yn huawdl. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen â rhuglder a chywirdeb, ac mae disgyblion mwy abl yn datblygu eu medrau darllen lefel uwch yn dda. Mae bron pob un o'r disgyblion yn siarad yn hyderus am eu hoff awduron a'r mathau o lyfrau y maent yn eu mwynhau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n effeithiol at ystod o ddibenion, gan gynnwys cyflwyno dadl gytbwys ac ysgrifennu llythyrau perswadiol. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio nodweddion sgript drama yn llwyddiannus, er enghraifft pan fyddant yn addasu stori 'The Gruffalo'. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu arddull gyson o lawysgrifen. Mae llawer ohonynt yn gwneud camgymeriadau esgeulus mewn sillafu ac nid ydynt yn defnyddio atalnodi'n gywir.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn defnyddio eu medrau llythrennedd yn effeithiol i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio eu medrau llythrennedd yn dda pan fyddant yn cofnodi ymchwiliadau gwyddoniaeth ac mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn llunio ffeiliau ffeithiau defnyddiol i gofnodi eu gwaith ar greaduriaid bach.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu Cymraeg llafar ac maent yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus fel rhan o arferion y dosbarth, er enghraifft yn rôl 'Helpwr Heddiw' a 'C'mon Cymraeg'. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn gofyn ac yn ateb cwestiynau syml yn annibynnol gan ddilyn patrymau sylfaenol. Mae llawer ohonynt yn ysgrifennu darnau byr yn dda gan ddefnyddio geirfa a phatrymau brawddeg cyfarwydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen ar lefel briodol, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u testunau ac maent yn ateb cwestiynau syml yn briodol. Maent yn ysgrifennu gan ddefnyddio geirfa dda mewn sgriptiau ac adroddiadau. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ysgrifennu'n gywir yn ôl hyd cynyddol yn amser y gorffennol, er enghraifft wrth ysgrifennu adolygiad o lyfr. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn defnyddio eu medrau Cymraeg yn ddigonol o gwmpas yr ysgol.

Yn y ddau gyfnod allweddol, mae disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn dda. Er enghraifft, yn y Cyfnod Sylfaen, erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrif i 100 yn hyderus, maent yn dyblu a haneru rhifau'n gywir ac yn dechrau deall gwerth lle a phedair rheol rhif. Maent hefyd yn mesur yn gywir mewn unedau safonol sylfaenol, yn gwybod priodoleddau siapiau dau a thri dimensiwn ac yn casglu a chynrychioli data yn llwyddiannus mewn gwahanol ffurfiau.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod berthnasol o strategaethau cyfrif yn y pen i gael yr atebion cywir yn gyflym. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn adnabod perthnasoedd rhwng rhifau i fyny i un filiwn. Maent yn lluosi a rhannu degolion ac yn defnyddio ffracsiynau cyfatebol yn wybodus. Maent yn newid rhwng gwahanol unedau mesur yn llwyddiannus ac yn dechrau deall geometreg ac algebra sylfaenol. Yn benodol, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn caffael medrau da o ran datrys problemau sy'n gysylltiedig â sefyllfaoedd bywyd go iawn, er enghraifft wrth gynllunio gwyliau a dylunio gerddi.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar fedrau TGCh da sy'n gymesur â'u hoedran a'u gallu. Er enghraifft, yn y dosbarth derbyn, maent yn defnyddio cyfrifiaduron llechen i wella eu medrau rhifedd ac, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn defnyddio ystod eang o ddyfeisiau electronig yn hyderus i greu a chyflwyno eu gwaith, er enghraifft wrth greu siapiau afreolaidd. Ar draws yr ysgol, mae pob un o'r disgyblion yn defnyddio'r rhyngrwyd ac amrywiaeth o feddalwedd yn briodol ac mae gan y rhan fwyaf ohonynt ymwybyddiaeth dda o e-ddiogelwch. Mae disgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 2 yn cymhwyso eu medrau TGCh yn dda. Maent yn defnyddio amrywiaeth o ddyfeisiau i ymchwilio, cyflwyno gwaith a chreu cronfeydd data syml, er enghraifft trwy greu graffiau a siartiau pwrpasol i esbonio eu canfyddiadau mewn gwyddoniaeth. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio codau yn llwyddiannus i ddylunio eu gemau eu hunain.

Mae bron pob un o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da tuag at gyflawni eu targedau dysgu.

Gan mai ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sydd gan yr ysgol, mae'r arfarniad o berfformiad y grŵp hwn o gymharu â disgyblion eraill yn annibynadwy. Fodd bynnag, mae bron pob un o'r disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn unigol. Dros gyfnod, mae merched ar y cyfan yn perfformio'n well ar draws yr ysgol, o gymharu â pherfformiad bechgyn.

Mae gan yr ysgol nifer gymharol isel o ddisgyblion mewn grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Mae hyn yn effeithio ar batrwm cyffredinol y perfformiad flwyddyn ar ôl blwyddyn yn yr asesiadau ar ddiwedd cyfnodau allweddol o gymharu â lefelau mewn ysgolion tebyg. Yn y Cyfnod Sylfaen, dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad ar y deilliannau disgwyliedig ac uwch mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol wedi gosod yr ysgol yn y 50% ar y cyfan, o gymharu ag ysgolion tebyg. Yng nghyfnod allweddol 2, ar y lefelau disgwyliedig ac uwch, nid yw perfformiad yr ysgol dros yr un cyfnod mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn dangos unrhyw batrwm cyson o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg.

**Lles: Digonol**

Mae bron pob un o’r disgyblion yn teimlo’n ddiogel a’u bod yn cael gofal da yn yr ysgol. Trwy eu cyfranogiad gweithredol mewn ystod o weithgareddau corfforol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos gwerthfawrogiad a dealltwriaeth dda o bwysigrwydd mabwysiadu ffordd iach o fyw.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn foesgar a chwrtais, gan arddangos ymddygiad da trwy gydol y diwrnod ysgol a dangos lefel dda o barch at ei gilydd ac oedolion. Maent yn frwdfrydig ynglŷn â’u dysgu ac yn gweithio gyda’i gilydd yn hapus.

Caiff disgyblion eu cynrychioli’n dda gan eu cyngor ysgol. Mae’r cyngor yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr at fywyd yr ysgol, er enghraifft trwy weithredu banc cynilion yr ysgol. Mae hyn wedi gwella gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o arian.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan werthfawr yn y gymuned leol trwy weithgareddau fel cymorth ar gyfer elusennau lleol a chysylltiadau â’r eglwys.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae presenoldeb wedi gosod yr ysgol yn y 50% is neu’r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon yn y bore.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy’n bodloni anghenion bron pob disgybl. Mae athrawon yn cynllunio’n drylwyr i ddarparu profiadau dysgu sy’n gyfoethog ac amrywiol. Maent yn nodi cyfleoedd da i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae athrawon yn gwneud defnydd da o’r amgylchedd yn yr awyr agored i ddarparu profiadau dysgu gwerth chweil.

Ceir ystod dda o weithgareddau allgyrsiol poblogaidd sy’n cefnogi dysgu disgyblion yn effeithiol, er enghraifft y clwb ‘Playful Futures’, sy’n cael effaith gadarnhaol ar greadigrwydd a dychymyg disgyblion.

Ceir cynllunio da ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion. Mae’r ‘Criw Cymraeg’ yn gwella llais y disgybl yn llwyddiannus ac yn cynyddu cyfranogiad y Gymraeg yn yr ysgol. Mae’r ysgol yn darparu ystod eang o weithgareddau sy’n hyrwyddo diwylliant a hanes Cymru, er enghraifft trwy eisteddfod yr ysgol, ymweliadau â Beddgelert ac astudio faciwîs lleol yn yr Ail Ryfel Byd.

Mae’r ysgol yn hyrwyddo addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy yn dda. Mae bron pob un o’r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd ailgylchu a gofalu am yr amgylchedd. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o agweddau ar y byd ehangach trwy astudio mathau eraill o ffydd, gwledydd a diwylliannau eraill. Er enghraifft, maent yn cymharu crefyddau fel Islam â Christnogaeth, ac yn cysylltu ag ysgol yn India, sy’n helpu disgyblion i ddeall bywyd yn y byd ehangach.

## Addysgu: Da

Mae'r rhan fwyaf o'r addysgu yn galluogi disgyblion i ddysgu'n effeithiol a gwneud cynnydd da. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae athrawon yn darparu gweithgareddau dysgu diddorol a difyr sy'n cymell disgyblion. Mae athrawon yn annog disgyblion i ganolbwyntio'n dda ar eu dysgu a datblygu dyfalbarhad pan fyddant yn wynebu anawsterau. Mae perthnasoedd gweithio rhwng staff a disgyblion ym mhob dosbarth yn gadarnhaol a chryf.

Mae athrawon yn trefnu'r amgylchedd dysgu yn ofalus i alluogi disgyblion i ddefnyddio adnoddau'n hawdd a dod yn ddysgwyr annibynnol. Mae hyn yn arbennig o wir yn y Cyfnod Sylfaen, ble mae athrawon a staff cymorth medrus yn arwain gweithgareddau heriol sy'n datblygu dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau newydd yn dda. Mae staff yn annog disgyblion i ddewis eu gweithgareddau eu hunain i atgyfnerthu eu dysgu mewn ardaloedd o'r ystafell ddosbarth sydd wedi'u cynllunio'n ofalus ac yn cynnwys adnoddau da. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn awyddus i ddysgu ac yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u mannau cychwyn.

Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, ceir amcanion dysgu clir ac mae bron pob un o'r disgyblion yn deall beth mae angen iddynt ei wneud i lwyddo. Ar y cyfan, mae athrawon yn cynllunio gwaith yn dda i fodloni gwahanol anghenion y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith bob amser yn ddigon heriol ar gyfer disgyblion mwy abl. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu sylwadau cadarnhaol a chefnogol ar waith ysgrifenedig disgyblion ond nid yw'r rhain bob amser yn rhoi syniad digon clir i ddisgyblion ynglŷn â'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella.

Mae athrawon ac uwch arweinwyr yn olrhain cynnydd disgyblion yn systematig ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i nodi disgyblion sy'n tangyflawni. Mae adolygiadau tymhorol o gynnydd ar gyfer pob disgybl yn rhoi cyfleoedd da i athrawon rannu gwybodaeth a thargedu ymyriadau'n briodol.

Mae'r ysgol yn hysbysu rhieni'n dda am gynnydd eu plant trwy adroddiadau manwl sy'n cwmpasu'r holl agweddau gofynnol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn darparu lefelau da o gymorth ac arweiniad ar gyfer disgyblion i godi eu hymwybyddiaeth o fyw yn iach a lles. Mae hyn yn golygu bod bron pob un o'r disgyblion yn hapus a diogel yn yr ysgol, ac maent yn dangos lefelau priodol o hunanhyder. Rhoddir pwyslais cryf ar ymddygiad da, gwerthoedd cadarnhaol a pharch at bobl eraill. Mae trefniadau ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae trefniadau'r ysgol i hyrwyddo presenoldeb da trwy gylchlythyrau rheolaidd a chymhellion yn sicrhau bod rhieni a disgyblion yn ymwybodol iawn o oblygiadau addysgol a chymdeithasol absenoldeb.

Mae staff yn hyrwyddo datblygiad diwylliannol disgyblion yn dda trwy ystod o ymweliadau ac ymwelwyr. Mae'r cymorth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus, yn enwedig trwy gyd-addoli ac addysg bersonol a chymdeithasol effeithiol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o ystod eang o wasanaethau arbenigol, fel y gwasanaeth seicolegwyr addysg a therapi lleferydd ac iaith, er mwyn darparu cymorth priodol ar gyfer disgyblion a nodwyd, a'u teuluoedd.

Ceir darpariaeth dda i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae staff yn nodi anghenion disgyblion yn gynnar ac yn cynllunio ystod addas o raglenni i gefnogi dysgu. Mae cynorthwywyr addysgu yn darparu cymorth gwerthfawr wrth gyflwyno rhaglenni i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae staff yn adolygu targedau mewn cynlluniau addysgol unigol yn rheolaidd ac yn arfarnu effaith y ddarpariaeth. Mae hyn yn sicrhau bod bron pob un o'r disgyblion targedig yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u galluoedd.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd gofalgar, cynhwysol a chroesawgar iawn ar gyfer yr holl ddisgyblion, yn seiliedig ar ei gwerthoedd Cristnogol. Rhoddir blaenoriaeth uchel i les pob aelod o gymuned yr ysgol. Mae staff yn trin pob disgybl yn gyfartal ac yn dangos parch atynt. Gall disgyblion elwa'n rhwydd ar bob agwedd ar gwricwlwm yr ysgol a'r ystod dda o weithgareddau allgyrsiol a ddarperir.

Mae'r safle a'r adeiladau yn ddiogel a saff. Gwneir defnydd effeithiol o'r holl ofod sydd ar gael, gan gynnwys yr awyr agored, i gefnogi dysgu a chwarae disgyblion.

Mae ystod dda o adnoddau yn cefnogi addysgu a dysgu. Er enghraifft, mae'r llyfrgell sydd â chyflenwad da o lyfrau a'r offer TGCh digonol yn cefnogi datblygiad medrau disgyblion yn effeithiol. Mae'r arddangosfeydd lliwgar mewn ardaloedd cymunedol, coridorau ac ystafelloedd dosbarth yn dathlu gwaith disgyblion yn dda.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref i'r ysgol. Mae ganddo ddisgwyliadau uchel o staff a disgyblion ac mae'n darparu synnwyr clir o gyfeiriad gyda ffocws cryf ar godi safonau.

Mae gan bob un o'r staff rolau a chyfrifoldebau clir y maent yn eu cyflawni'n ddiwyd. Mae gwaith tîm yn nodwedd gref ac mae cyflwyno timau gwella'r ysgol yn cael effaith gadarnhaol, yn enwedig o ran datblygu dysgu yn yr awyr agored a chodi safonau ymddygiad. Mae'r pennaeth yn sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu trefnu'n dda a bod systemau cyfathrebu effeithiol yn hysbysu pob un o'r staff yn llawn. Ceir prosesau sefydledig ar gyfer rheoli perfformiad staff addysgu. Mae gosod targedau rheoli perfformiad yn cefnogi gwelliant yr ysgol yn llwyddiannus.
Mae'r ysgol yn canolbwyntio'n dda ar flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Er enghraifft, mae staff yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddatblygu medrau TGCh disgyblion yn systematig.

Mae'r corff llywodraethol yn darparu cymorth hynod effeithiol i'r ysgol. Trwy gynnwys llywodraethwyr mewn adolygu ei weithdrefnau ei hun, mae gan y corff llywodraethol

ddealltwriaeth glir o'i rôl. Caiff llywodraethwyr eu hysbysu'n dda trwy adroddiadau manwl gan y pennaeth, er enghraifft. Maent yn monitro gwaith yr ysgol trwy eu rhan mewn teithiau dysgu a thrafodaethau sy'n gysylltiedig â data'r ysgol. Defnyddiant eu gwybodaeth yn dda i herio'r ysgol yn briodol, er enghraifft gofyn am wybodaeth am y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl, ac am y gwelliannau mewn Cymraeg ar draws yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol system sefydledig i gefnogi cynllunio ar gyfer gwella. Mae pob un o'r staff a'r llywodraethwyr yn cymryd rhan yn llawn yn y broses hunanadolygu ac yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr. Mae arweinwyr yn gofyn am safbwyntiau rhieni bob blwyddyn trwy holiaduron, ac mae'r ysgol yn gweithredu yn unol â'r wybodaeth yn briodol. Mae datblygu systemau cyfathrebu mwy helaeth ar gyfer rhieni yn ymateb uniongyrchol i'w hawgrymiadau. Mae disgyblion yn mynegi eu safbwyntiau'n hyderus trwy systemau sefydledig, gan gynnwys y cyngor ysgol. Mae arweinwyr yn defnyddio ystod dda o dystiolaeth uniongyrchol a'r dadansoddiad manwl o ddata i lywio hunanadolygu yn effeithiol. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn rhoi trosolwg cywir o'r ysgol ac mae'n amlygu cryfderau a meysydd i'w datblygu yn glir.

Mae blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol yn cysylltu'n glir â chanlyniad yr hunanadolygiad. Mae prif flaenoriaethau'n cynnwys ffocws clir ar godi safonau a gwella darpariaeth. Mae'r cynllun gwella yn cynnwys manylion priodol, ac fe gaiff cynnydd o ran mynd i'r afael â blaenoriaethau ei fonitro'n drylwyr. Caiff pob un o'r staff eu cynnwys yn llawn mewn agweddau ar wella'r ysgol, yn enwedig trwy eu gwaith mewn timau gwella'r ysgol. Mae hyn wedi codi safonau ac wedi gwella lles mewn llawer o feysydd, er enghraifft trwy wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion a chefnogi eu datblygiad personol a chymdeithasol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaeth gref gyda rhieni, a chânt eu hysbysu'n dda iawn am fywyd a gwaith yr ysgol. Mae cysylltiadau sefydledig â chymuned y pentref a'r ystâd leol yn hynod effeithiol o ran cefnogi datblygiad a chynnal tir yr ysgol er budd disgyblion.

Mae'r ysgol yn defnyddio partneriaethau'n dda i ddatblygu ac ehangu'r cwricwlwm, gan gynnwys gwaith agos â'r eglwys, a chysylltiadau effeithiol â'r grŵp o ysgolion lleol. Mae defnyddio darparwyr allanol yn galluogi'r ysgol i gynnig ystod eang o weithgareddau allgyrsiol difyr. Mae gan staff gysylltiadau sefydledig gyda gwasanaethau sy'n cefnogi datblygiad creadigol disgyblion yn llwyddiannus, yn enwedig trwy eu gwaith fel rhan o ysgol greadigol arweiniol a thrwy eu cysylltiadau ag arbenigwyr cerdd.

Mae cydweithio ag ysgolion lleol yn cynorthwyo athrawon i asesu gwaith disgyblion yn gywir, a datblygu adnoddau. Mae cysylltiadau ag ysgolion y tu allan i'r ardal leol, a cholegau addysg bellach, yn galluogi'r ysgol i rannu arfer dda yn effeithiol. Mae arweinwyr yn defnyddio'r cyngor a gynigir gan staff ymgynghorol i roi newidiadau cadarnhaol ar waith, yn enwedig o ran datblygu strategaethau addysgu. Mae'r ysgol yn cysylltu'n dda â nifer o ysgolion uwchradd i sicrhau bod bron pob un o'r disgyblion

yn trosglwyddo'n hyderus i addysg uwchradd. Mae gan staff gysylltiadau da â'r cylch chwarae lleol sy'n cyfarfod ar y safle, ac mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn ymgynefino'n gyflym yn y dosbarth meithrin.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol nifer ddigonol o athrawon a chynorthwywyr addysgu cymwys i gyflwyno'r cwricwlwm a sicrhau lles yr holl ddisgyblion. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o brofiad ac arbenigedd staff, er enghraifft wrth addysgu Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2.

Mae athrawon yn defnyddio eu hamser cynllunio, paratoi ac asesu yn effeithiol. Mae'r pennaeth yn sicrhau bod pob un o'r staff yn cael cyfleoedd rheolaidd i ymgymryd â datblygiad proffesiynol perthnasol. Er enghraifft, mae hyfforddiant staff i wella agweddau ar gymhwysedd digidol wedi arwain at gynnydd yn safonau TGCh y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae gweithio'n agos fel tîm yn cefnogi cyflwyno a datblygu mentrau newydd yn llwyddiannus, er enghraifft wrth roi'r rhaglen ysgolion creadigol arweiniol ar waith a chyflwyno menter newydd i wella ymddygiad disgyblion.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro cyllid yr ysgol yn drylwyr. Maent yn sicrhau bod gan yr ysgol gronfa briodol wrth gefn. Mae staff yn defnyddio'r grant amddifadedd disgyblion yn effeithiol fel bod disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni'n dda. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd helaeth o gyllid grant o ystod o ffynonellau i wella darpariaeth, adeiladau a thir yr ysgol ymhellach.

Yng ngoleuni deilliannau disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6643320 - Ysgol Y Llan, Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 120 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 4.8 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 15 | 16 | 17 | 14 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 93.3 | 93.8 | 100.0 | 92.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 1 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 15 | 16 | 17 | 14 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 93.3 | 93.8 | 100.0 | 92.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 33.3 | 50.0 | 29.4 | 42.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 4 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 15 | 16 | 17 | 14 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 93.3 | 100.0 | 100.0 | 92.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 26.7 | 43.8 | 29.4 | 21.4 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 4 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 15 | 16 | 17 | 14 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 60.0 | 50.0 | 47.1 | 42.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 4 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6643320 - Ysgol Y Llan, Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 120 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 4.8 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 14 | 5 | 12 | 15 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 92.9 | 100.0 | 91.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 3 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 14 | 5 | 12 | 15 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 92.9 | 100.0 | 91.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 42.9 | 20.0 | 58.3 | 53.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 2 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 14 | 5 | 12 | 15 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 92.9 | 100.0 | 91.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 57.1 | 40.0 | 66.7 | 53.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 | 2 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 14 | 5 | 12 | 15 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 92.9 | 100.0 | 91.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 42.9 | 20.0 | 58.3 | 60.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 2 | 2 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, trwy'r ddolen gyswllt isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 56 | 56<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 56 | 55<br>98%<br>92% | 1<br>2%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 56 | 54<br>96%<br>97% | 2<br>4%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 56 | 54<br>96%<br>97% | 2<br>4%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 56 | 56<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 56 | 55<br>98%<br>96% | 1<br>2%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 56 | 56<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 56 | 56<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 56 | 51<br>91%<br>90% | 5<br>9%<br>10% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 56 | 52<br>93%<br>95% | 4<br>7%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 56 | 53<br>95%<br>77% | 3<br>5%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 56 | 55<br>98%<br>84% | 1<br>2%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

# Ymatebion i'r holiadur i rieni

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 69 | 25 | 35 | 3 | 6 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 36% | 51% | 4% | 9% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 70 | 42 | 18 | 3 | 7 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 60% | 26% | 4% | 10% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 70 | 43 | 23 | 3 | 1 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 61% | 33% | 4% | 1% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 70 | 25 | 29 | 8 | 4 | 4 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 36% | 41% | 11% | 6% | | |
| | | 61% | 35% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 70 | 15 | 38 | 9 | 6 | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 21% | 54% | 13% | 9% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 70 | 24 | 35 | 4 | 1 | 6 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 34% | 50% | 6% | 1% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 1% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 70 | 28 | 34 | 4 | 2 | 2 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. |
| | | 40% | 49% | 6% | 3% | | |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 69 | 14 | 33 | 8 | 4 | 10 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 20% | 48% | 12% | 6% | | |
| | | 48% | 43% | 7% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 70 | 28 | 33 | 5 | 4 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 40% | 47% | 7% | 6% | | |
| | | 59% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 70 | 30 | 30 | 7 | 1 | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 43% | 43% | 10% | 1% | | |
| | | 59% | 38% | 3% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 70 | 37 | 26 | 2 | 3 | 2 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 53% | 37% | 3% | 4% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 70 | 15 | 33 | 6 | 4 | 12 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 21% | 47% | 9% | 6% | | |
| | | 55% | 39% | 5% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 70 | 11<br>16% | 36<br>51% | 20<br>29% | 1<br>1% | 2 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 48% | 41% | 9% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 70 | 31<br>44% | 28<br>40% | 7<br>10% | 3<br>4% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 70 | 18<br>26% | 38<br>54% | 3<br>4% | 2<br>3% | 9 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 70 | 22<br>31% | 38<br>54% | 7<br>10% | 1<br>1% | 2 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 57% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 69 | 13<br>19% | 29<br>42% | 8<br>12% | 3<br>4% | 16 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 69 | 18<br>26% | 43<br>62% | 4<br>6% | 2<br>3% | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 70 | 20<br>29% | 36<br>51% | 6<br>9% | 5<br>7% | 3 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 34% | 4% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mr Jeffrey John Beecher | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Linda Jane Williams | Arolygydd Tîm |
| Mr James Jones | Arolygydd Lleyg |
| Mr Huw Rowlands | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mr Bryan Griffiths (Pennaeth) | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.